ofgem | ofgem E-Serve

Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy: Rôl Ofgem

Taflen ffeithiau 106 28.07.11 www.ofgem.gov.uk

**Rhaglen amgylcheddol newydd gan y Llywodraeth yw'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy sydd wedi'i chynllunio i gynyddu faint o bobl sy'n defnyddio technolegau gwres adnewyddadwy drwy roi taliadau cymhelliant i gynhyrchwyr gwres adnewyddadwy cymwys at ddibenion y sectorau masnachol, diwydiannol, dielw a chyhoeddus ac i gynhyrchwyr biomethan.**

Bydd yn cyfrannu tuag at darged y Llywodraeth (fel y'i nodir yng Nghyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy 2009 yr UE) i gynhyrchu 15% o gyfanswm yr ynni a ddefnyddir yn y DU o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae Rheoliadau'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn enwi'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) fel y corff sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun.

Caiff amrywiaeth o dechnolegau gwres adnewyddadwy eu cefnogi o dan y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys paneli thermol solar, boeleri biomas, pympiau gwres o'r ddaear a phympiau gwres o ddŵr, peiriannau geothermol a chynhyrchu biomethan i'w roi yn y grid nwy. Mae gan bob technoleg lefel tariff gwahanol sy'n pennu faint o gymorth a roddir fesul uned o wres neu fiomethan cymwys a gynhyrchir. Mae'r lefelau tariff gwahanol wedi'u pennu i adlewyrchu'r gwahaniaeth disgwyliedig yng nghostau gosod a chynnal a chadw pob technoleg gwres adnewyddadwy cymwys o gymharu â system tanwydd ffosil gyfwerth.

Noder oherwydd newidiadau i bolisi'r llywodraeth, ymatebion gan randdeiliaid i ymgynghoriadau a chymeradwyaeth gan gymorth gwladwriaethol, gall cynnwys y daflen ffeithiau hon newid.

Mae'r Llywodraeth, Ofgem a chyfranogwyr i gyd yn chwarae rhan nodedig yn y broses o wneud i'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy weithio. I grynhoi:

**Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd**

- Datblygu fframwaith polisi cyffredinol a deddfwriaeth ategol
- Pennu tariffau ar gyfer technolegau gwahanol
- Nodi meini prawf cymhwysedd manwl a rheolau'r cynllun yn Rheoliadau'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

**Ofgem**

- Gweinyddu'r cynllun yn ffurfiol ar ran y Llywodraeth ac yn unol â Rheoliadau'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy
- Achredu gosodiadau a chofrestru cynhyrchion cynhyrchwyr biomethan sy'n gymwys i gael y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy
- Gwneud taliadau i gyfranogwyr achredegig y cynllun
- Monitro cydymffurfiaeth cyfranogwyr â rheolau'r cynllun

**Cyfranogwyr**


- Gallu gwneud cais am y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy
- Gorfod cydymffurfio ag amodau cyfredol y cynllun
- Cyfranogwyr annomestig yn unig mewn perthynas â'r cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ar gyfer 2011/12

Mae Ofgem yn gyfrifol am weinyddu'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ar ran yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Ymhlith ein swyddogaethau mae achredu gosodiadau cymwys, gwneud taliadau i gyfranogwyr, monitro cydymffurfiaeth â gofynion y cynllun, a chynnal archwiliadau i sicrhau y caiff amodau'r cynllun eu bodloni. Rydym hefyd yn gyfrifol am ddarparu canllawiau i gyfranogwyr a darpar gyfranogwyr i'w helpu i ddeall sut i wneud cais am y cynllun a sut i ddangos cydymffurfiaeth â meini prawf cymhwysedd y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy a rhwymedigaethau parhaus cyfranogwyr o dan y cynllun.

Nid yw Ofgem mewn sefyllfa i roi cyngor technegol na chyfreithiol i ddarpar gyfranogwyr. Dylai ymgeiswyr gael cyngor perthnasol gan drydydd partïon priodol cyn gwneud cais am gymorth.

**Y CYMHELLIANT GWRES ADNEWYDDADWY:** Mae'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn agored i gynhyrchwyr gwres adnewyddadwy yn y sectorau masnachol, diwydiannol, dielw a chyhoeddus ac i gynhyrchwyr biomethan yn y cam cyntaf. Mae'r Llywodraeth wrthi'n gweithio i gadarnhau'r amser ar gyfer y cymorth o dan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ar gyfer gosodiadau sy'n cyflenwi un safle domestig. Yn y cyfamser, mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn lansio'r Taliad Premiwm Gwres Adnewyddadwy ar gyfer cynhyrchwyr gwres adnewyddadwy domestig.

**Y Taliad Premiwm Gwres Adnewyddadwy:** Bydd y cynllun hwn yn rhoi taliad untro i ddeiliaid cartrefi tuag at gost gosod technoleg gwres adnewyddadwy cymwys. Mae'r Taliad Premiwm Gwres Adnewyddadwy yn cael ei weinyddu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ac mae'n rhedeg rhwng 1 Awst 2011 a 31 Mawrth 2012. Os ceir cymorth o dan y Taliad Premiwm Gwres Adnewyddadwy, bydd y cynhyrchydd hefyd yn gallu gwneud cais am gymorth o dan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy pan gaiff ei ymestyn i gyfranogwyr domestig. Fodd bynnag, efallai y bydd meini prawf cymhwysedd ychwanegol y bydd angen eu bodloni cyn y gellir derbyn yr ymgeisydd ar y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. Bydd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn datblygu'r polisi Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ar gyfer cyfranogwyr domestig yn ystod 2011/2012, felly dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â chymorth ar gyfer y sector domestig at yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.




## Rhagor o wybodaeth

### Dogfennau allweddol

**Dogfen bolisi y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy** – ar gael ar wefan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn www.decc.gov.uk/rhi. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r polisi sy'n tanategu'r cynllun.

**Rheoliadau'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy** - mae'r rhain yn darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer gweinyddu'r cynllun. Mae ar gael yn legislation.gov.uk.

**Dogfen Ganllaw y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy -** ar gael ar wefan Ofgem yn **www.ofgem.gov.uk/rhi** Mae'n rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr posibl am y meini prawf cymhwysedd, sut i wneud cais a rhwymedigaethau parhaus y cynllun.

**Y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy -** Cymorth ariannol ar gyfer technolegau gwres adnewyddadwy - ar gael ar wefan Ofgem yn **www.ofgem.gov.uk/rhi**. Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o'r prif feini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun, y broses gwneud cais, rhwymedigaethau parhaus a thaliadau.

### Cysylltiadau allweddol

Ar gyfer cwestiynau yn ymwneud â'r polisi sy'n tanategu'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (neu'r Taliad Premiwm Gwres Adnewyddadwy), cysylltwch â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd drwy ffonio **0300 060 4000** neu ewch i'w gwefan yn **www.decc.gov.uk/rhi,** neu drwy **www.direct.gov.uk**.

Ar gyfer cwestiynau yn ymwneud â'r meini prawf cymhwysedd a sut i wneud cais am y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (ar gyfer y sectorau masnachol, diwydiannol, dielw a chyhoeddus), cysylltwch â thîm ymholiadau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Ofgem E-Serve drwy ffonio **0845 200 2122** (rhwng 8:30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, rhwng 8:30am a 4:30pm ar ddydd Gwener), neu e-bostio **RHI.Enquiry@ofgem.gov.uk** (y dewis gorau ar gyfer ymholiadau hir neu gymhleth), neu ewch i'n gwefan yn **www.ofgem.gov.uk/rhi**.

Ar gyfer cwestiynau yn ymwneud â'r meini prawf cymhwysedd a sut i wneud cais neu'r Taliad Premiwm Gwres Adnewyddadwy, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni drwy ffonio **0800 512 012** neu ewch i'w gwefan yn **www.energysavingtrust.org.uk/RHPP**.